

Dydd Mercher, 14 Gorffennaf 2021

Hysbysiad o gyfarfod:**Cyngor Sir****Dydd Iau, 22ain Gorffennaf, 2021 at 2.00 pm,
Neuadd y Sir, Brynbuga – presenoldeb rhuthiol****AGENDA**

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Eitem No	Eitem	Tudalennau
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Cwestiynau Cyhoeddus	
4.	Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau	
5.	Adroddiadau i'r Cyngor:	
5.1.	GWELLIANNAU CANOLFAN HAMDDEN I GYFLEUSTERAU	1 - 20
6.	Rhestr o Gynigion	
6.1.	Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Kevin Williams Mae'r cyngor hwn yn canmol y cyfraniad i fywyd cymunedol yn ystod eu hamser mewn gofal gan ein rhai sy'n gadael gofal ifanc. Mae'n cydnabod yr effaith gadarnhaol y gallwn ni, fel cyngor, ei chael ar wella eu bywydau wrth adael y system ofal ac ar ben hynny byddwn yn parhau i gynnig cefnogaeth ac arweiniad iddynt ar ôl iddynt adael y system ofal, gan gynnwys y gefnogaeth ariannol y bydd ei hangen arnynt.	

<p>6.2.</p>	<p>Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Martyn Groucutt</p> <p>Mae'r cyngor hwn wedi cefnogi adeiladu darpariaeth ysgol drwodd newydd yn y Fenni, gyda chefnogaeth cyllid Ysgolion y Ganrif 21^{ain} sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cefnogi cwricwlwm cenedlaethol newydd Cymru, gan gwmpasu addysg 3-16 oed a gwerthoedd craidd y Gyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc y bydd plant yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Barod ar gyfer yr ysgol • Mynychu ysgol • Ymddwyn yn dda • Cael eu dysgu'n dda. <p>Mae'n cymeradwyo barn y Grŵp Llafur mai'r ddarpariaeth orau trwy'r ysgol yn cael ei darparu orau gan uwch dîm arweinyddiaeth yr ysgol, athrawon, staff gofal a gweithwyr proffesiynol eraill a gyflogir yn uniongyrchol gan yr ysgol. Felly mae'n gwrthod y farn y dylid darparu blwyddyn addysg Meithrin plant ar y safle ysgol newydd hwn trwy ddarpariaeth breifat na fydd o dan reolaeth tîm arweinyddiaeth yr ysgol. At hynny, dylai hyn fod wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, yn hytrach na bod hyn yn seiliedig ar ddarparu addysg a Gynhelir rhwng 4-19 oed.</p>	
<p>7.</p>	<p>Cwestiynau'r Aelodau:</p>	
<p>7.1.</p>	<p>O'r Cynghorydd Sir Christopher Edwards i'r Cynghorydd Sir Paul Pavia, Aelod Cabinet dros Addysg</p> <p>A allai'r Aelod Cabinet dros Addysg hysbysu'r cyngor o'r cynnydd gyda'r rhaglen Ysgolion Ganrif 21^{ain}, a pha gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau y bydd Ysgol Gas-gwent yn cael ei gosod yn y cam nesaf?</p>	
<p>7.2.</p>	<p>O'r Cynghorydd Sir Christopher Edwards i'r Cynghorydd Sir Jane Pratt, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Seilwaith a Chymdogaeth</p> <p>A allai'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Seilwaith a Chymdogaeth hysbysu'r cyngor pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod diogelwch ar y ffyrdd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r cyngor hwn, yn enwedig i blant ysgol a'r rhai sy'n agored i niwed sy'n teithio ar hyd Stryd Gymreig a Ffordd Sant Lawrens yn fy ward yn Sant Kingsmark, Cas-gwent?</p>	
<p>8.</p>	<p>Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24ain Mehefin 2021</p>	<p>21 - 30</p>

**Paul Matthews
Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

P. Clarke
D. Batrouni
J.Becker
D. Blakebrough
L.Brown
A.Davies
L.Dymock
A. Easson
R. Edwards
D. Evans
M.Feakins
P.A. Fox
R.J.W. Greenland
M.Groucutt
L. Guppy
R. Harris
J. Higginson
G. Howard
S. Howarth
R.John
D. Jones
L.Jones
P. Jones
S. Jones
S.B. Jones
P. Jordan
M.Lane
P. Murphy
P.Pavia
M. Powell
J.Pratt
R.Roden
V. Smith
B. Strong
F. Taylor
T.Thomas
J.Treharne
J.Watkins
A. Watts
A. Webb
K. Williams
S. Woodhouse

Gwybodaeth Gyhoeddus

Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

Ein Gwerthoedd

Bod yn agored. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

Tegwch. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

Hyblygrwydd. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

Gwaith Tim. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrysyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.